

Ymateb Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Paratoi ar gyfer Brexit – Adroddiad ar barodrwydd y sector gofal iechyd a meddyginiaethau yng Nghymru.

Trosolwg

Er bod y DU a'r UE wedi llofnodi Cytundeb Ymadael, mae llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â chanlyniad pleidlais ystyrlon y DU ar y cytundeb. Mae yna risg sylweddol o hyd y bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Mae gweithgarwch â blaenoriaeth yn canolbwyntio ar ddwy agwedd a fyddai'n cael effaith yn syth os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ar 29 Mawrth:

- Parodrwydd Gweithredol – sicrhau bod cynlluniau wrth gefn priodol a chymesur ar waith i sicrhau parhad gwasanaethau drwy'r cyfnod yn dilyn 29 Mawrth 2019 os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.
- Parodrwydd deddfwriaethol – sicrhau bod yr holl newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol wedi'u cytuno rhwng deddfwrfeydd a'u cymeradwyo trwy Senedd y DU a'r Cynulliad.

Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r iechyd a gofal cymdeithasol yw rhoi blaenoriaeth i weithgarwch parodrwydd gweithredol er mwyn bod yn barod rhag ofn y bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, a defnyddio trefniadau parhad a chydnerthedd busnes presennol ar gyfer cynllunio parodrwydd, ar lefel ranbarthol, ochr yn ochr â phartneriaid darparu allweddol.

Rydym yn gweithio'n agos gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod cynlluniau cadarn ar waith i amddiffyn darpariaethau gofal iechyd a diogelwch cleifion wrth bod disgwyl i'r DU ymadael â'r UE.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am eu gwaith yn helpu i baratoi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer goblygiadau posibl Brexit. Rwy'n hapus i dderbyn pob un o bum argymhelliad y Pwyllgor, ac rwy'n rhoi mwy o sylw i bob un isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn cadarnhau bod cynlluniau cyfathrebu ar droed ar gyfer y cyfnod cyn i'r DU ymadael â'r UE yn

ffurfiol ddiwedd mis Mawrth 2019. Wrth gadarnhau hyn, dylid rhannu â'r Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

- **manylion y risgiau a nodwyd mewn cysylltiad â pharodrwydd sector gofal iechyd Cymru ar gyfer Brexit; a**
- **manylion ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfathrebu cynlluniau parodrwydd gyda phob lefel o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

Ymateb: Derbyn

Mae ymadael â'r UE yn broses gymhleth, a bydd yn effeithio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn llawer o ffyrdd. Rydym yn cytuno'n llwyr bod angen dulliau cyfathrebu effeithiol a pharhaus er mwyn amlinellu'r heriau sy'n ein hwynebu ond hefyd i dawelu meddwl rhanddeiliaid bod gwaith yn cael ei wneud i ddiogelu eu buddiannau yn y cyfnod cyn y mae disgwyl i'r DU ymadael â'r UE ac ar ôl hynny.

Mae Andrew Goodall, Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru, ac Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, yn ysgrifennu at Brif Weithredwyr y GIG a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol yn ôl y gofyn i roi'r newyddion diweddaraf iddynt am ddatblygiadau mewn meysydd polisi allweddol ac i nodi meysydd lle mae angen ystyriaeth, cynllunio a gweithredu i sicrhau parodrwydd ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae dulliau cyfathrebu wedi bod yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o safbwynt Llywodraeth y DU, ar y sicrwydd diweddaraf gan Weinidogion a swyddogion Llywodraeth y DU ac ar wybodaeth a rannwyd gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â threfniadau parodrwydd y DU.

Mae'r sefyllfa'n newid yn gyflym, felly bydd gohebiaeth reolaidd yn cael ei chefnogi gan ddogfen gryno ar y Matrics Parodrwydd ar gyfer Brexit, a reolir gan Lywodraeth Cymru ac a rennir fel 'dogfen fyw' trwy ein cyfryngau cyfathrebu ac atebolrwydd rheolaidd, gan gynnwys cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol GIG Cymru a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r matrics yn nodi'r risgiau a nodwyd yn ymwneud â pharodrwydd sector iechyd a gofal cymdeithasol Cymru ar gyfer Brexit, y camau gweithredol a gymerwyd, camau pellach sydd ar y gweill a'r ystod o rhanddeiliaid allweddol sy'n rhan o'r gwaith.

Yn ogystal, rydym yn gweithio'n agos gyda Chonffederasiwn GIG Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ystod o sefydliadau rhanddeiliaid i helpu i sicrhau dull cyfathrebu clir a chydgyssylltiedig yn y cyfnod cyn i'r DU ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019 ac ar ôl hynny.

Rydym wedi sefydlu strwythur llywodraethu cadarn o grwpiau rhanddeiliaid allweddol hefyd sy'n galluogi llinellau cyfathrebu rheolaidd a ffurfiol ar fesurau parodrwydd, yn enwedig os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Byddwn yn parhau i

ymgysylltu'n eang ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru trwy ein pedwar prif grŵp rhanddeiliaid:

- Fforwm Cynghorol Rhanddeiliaid Gweinidogol, a gadeirir gennyf i, ac a fynychir gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Grŵp arweinyddiaeth pontio'r UE a gadeirir gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfarfod yn fisol ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau parodrwydd gweithredol ar waith ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
- Mae Grŵp Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Sifil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Posibl Brexit a gadeirir gan Lywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i gydgyssylltu cynlluniau parhad a chydnerthedd busnes.
- Grŵp Iechyd y Cyhoedd y Pedair Gwlad sy'n mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd a phryderon diogelwch iechyd, yn gysylltiedig â gweithgor ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ystyried materion penodol i Gymru.

Argymhelliad 2:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu manylion:

- **ei thrafodaethau ag adrannau cyfatebol Llywodraeth y DU ynghylch cydlynu eu gwaith paratoi ar gyfer Brexit ym maes gofal iechyd a meddyginiaethau; a**
- **y gwaith sydd ar y gweill i sicrhau bod digon o le mewn warysau i fodloni'r gofynion storio meddyginiaethau.**

Ymateb: Derbyn

Cyflenwad Meddyginiaethau

Bydd sefydliadau yng Nghymru yn rhan o'r dulliau a ddefnyddir ledled y DU i sicrhau parhad cyflenwadau meddyginiaethau.

Ym mis Ebrill 2018, cynhaliodd Llywodraeth y DU asesiad risg o holl feddyginiaethau'r DU i ddod o hyd i gyfeintiau o'r rhai sydd â phwynt cyswllt yn yr UE a allai arwain o'r herwydd at oedi yn y gadwyn gyflenwi.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr meddyginiaethau y byddant yn cynnal cyfnod o 6-12 mis o fewnforion wedi'u hoedi

(h.y. byffer chwe wythnos, yn hytrach chasglu ynghyd na stoc chwe wythnos, ar ben eu cronfeydd wrth gefn arferol, i sicrhau cyflenwad os bydd unrhyw oedi ar y ffin).

Bydd y cwmnïau'n dilyn eu gweithdrefnau arferol ar gyfer ymdrin ag archebion y GIG am gyflenwadau yn y DU. O ystyried natur wasgaredig y cyflenwad meddyginiaethau, a'r dull a arweinir gan y diwydiant, bydd y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith ledled y DU. Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr a chyflenwyr wedi sicrhau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y gallant fodloni'r gofyniad hwn.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi tendro ar gyfer warysau a chyfleusterau storio ychwanegol posibl ac wedi dechrau dyfarnu contractau i gyflenwyr. Mae'n gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ddatblygu dull o flaenoriaethu cyflenwadau a archebir gan y GIG. Bydd rhan o'r cymorth i gynhyrchwyr yn cynnwys cyllid i dalu costau'r capasiti ychwanegol sydd ei angen i storio meddyginiaethau. Er mwyn ceisio sicrhau parhad cyflenwad meddyginiaethau a nwyddau eraill â blaenoriaeth, mae'r Adran Drafndiaeth wedi dyfarnu contractau i gynyddu nifer y teithiau gan fferïau lorïau (rhwng Portsmouth/Le Havre, Plymouth/Roscoff a Poole/Cherbourg). Mae llwybrau o Immingham a Felixstowe ar y gweill hefyd. Y nod yw osgoi unrhyw dagfeydd yn Dover a Folkestone.

Mae Llywodraeth y DU wedi drafftio rheoliadau a fyddai'n caniatáu i fferyllwyr ddsbarthu llai o feddyginiaeth nag a nodir yn y presgripsiwn os bydd y feddyginiaeth honno'n brin, megis y prinder diweddar o adrenalín Epi-Pen. Bydd y rheoliadau'n cael eu cyflwyno'n awtomatig yng Nghymru os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau bob pythefnos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r asiantaethau arweiniol i adolygu cynnydd ac asesu digonolrwydd trefniadau. Ein harweiniad presennol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru, ac i ddarparwyr eraill gwasanaethau iechyd a gofal, yw nad oes angen iddynt storio meddyginiaethau'n unigol rhag ofn y bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Mar storio lleol gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiangen, a gallai arwain at brinder mewn ardaloedd eraill, a fyddai'n peryglu gofal cleifion.

Dyfeisiau Meddygol a Defnyddiau Traul Clinigol

Mae Llywodraeth Cymru a Chydwasanaethau GIG Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gynlluniau wrth gefn i sicrhau y bydd dyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol (MDCC) yn parhau i gael eu cyflenwi.

Gofynnwyd i gyflenwyr MDCC storio mwy o'r defnyddiau hyn yn y DU, fodd bynnag mae'r gadwyn gyflenwi'n lletach o lawer ac mae llawer o ddarparwyr bach, felly nid oes sicrwydd ledled y sector fel sy'n bodoli ar gyfer meddyginiaethau.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud defnydd helaeth o ymgynghoriaeth allanol (Deloitte) i gynnal dadansoddiad llawn o gadwyni cyflenwi'r

holl gynhyrchion a ddefnyddir gan y GIG, a rhai cyflenwadau trwy gyfanwerthwyr i leoliadau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Deloitte gynnal dadansoddiad manwl tebyg ar gyfer GIG Cymru a'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Allbwn y gwaith hwn yw cynllun wrth gefn sy'n benodol i Gymru ond yn cael ei lywio gan ddull Lloegr, gydag opsiynau i bennu sut y dylai Cymru ddefnyddio pum mesur wrth gefn y DU a arweinir gan NHS England.

Adeg ysgrifennu hwn, roedd Deloitte ar fin adrodd ar ei hargymhellion, a disgwylir i'r opsiynau gynnwys stociau 'Lleol' ychwanegol neu gyflenwol yng Nghymru, ac argymhellion ar y berthynas rhwng Cymru a Lloegr o ran capasiti warysau, creu a rheoli stocrestr a'r National Supply Disruption Service yn arbennig. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn, ochr yn ochr ag ymgysylltu parhaus ar lefel swyddogol gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn llywio cynllun parhad cyflenwad Cymru a fydd yn cael ei roi ar waith os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad a gwblhawyd eisoes, nid oes angen i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru storio dyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol ychwanegol y tu hwnt i'w lefelau stoc busnes fel arfer llawn.

Argymhelliad 3:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu manylion ynghylch sut y mae'n pwysu ar Lywodraeth y DU i gadw cydweithrediad parhaus rhwng y DU a'r UE o ran rheoleiddio i sicrhau mynediad at feddyginiaethau ac ymchwil glinigol ar ôl Brexit.

Rydym yn nodi bod rhywfaint o ansicrwydd yn parhau o ran sicrhau y cynigir trefniadau gofal iechyd cyfatebol ar ôl Brexit, yn enwedig mewn senario "dim bargaen". Fodd bynnag, rydym yn nodi hefyd bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch yr ansicrwydd parhaus mewn perthynas â mynediad y DU at radioisotopau meddygol yn y dyfodol ac yn credu bod angen cynnig eglurder ynghylch y sefyllfa fel mater o frys.

Ymateb: Derbyn

Y Gyfarwyddeb Meddyginiaethau Ffug

Bydd y Rheoliad Dirprwyedig i'r Gyfarwyddeb Meddyginiaethau Ffug (FMD) yn dod i rym ym mis Chwefror 2019. Bydd y rheoliad newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynhyrchwyr roi nodweddion diogelwch ar bob meddyginiaeth a gwneud cyfraniad ariannol at sefydlu system wirio TG a fydd yn galluogi i ddilysrwydd meddyginiaeth gael ei dilysu adeg ei chyflenwi i'r claf.

Mae meddyginiaethau ffug yn cynnwys y meddyginiaethau hynny sydd heb lawer o gynhwysion actif os o gwbl, sydd â'r cynhwysion actif anghywir, sydd mewn pecynnau ffug neu becynnau yr ymyrrwyd â nhw a lle mae cynhyrchion a/neu becynnau wedi'u dwyn i'w hailddefnyddio neu eu hailwerthu.

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE ar sail Cytundeb y Prif Weinidog, bydd y Ddeddf Ymadael yn troi cyfraith bresennol yr UE yn gyfraith y DU ac yn cadw'r deddfau a wnaed yn y DU i gyflawni ein rhwymedigaethau i'r UE. Mae hyn yn golygu y byddai dyletswyddau'r Gyfarwyddeb Meddyginiaethau Ffug yn parhau i fod yn berthnasol, oni bai ei bod yn cael eu diddymu.

Ymchwil Glinigol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wasanaeth cystadleuol ar gyfer asesiadau o dreialon clinigol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, beth bynnag fo canlyniad y trafodaethau. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi arweiniad ar gyflenwi cynhyrchion meddyginiaethol ymchwiliadol (IMPs) ar gyfer treialon clinigol os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant gwyddorau bywyd ynghylch treialon ymchwil contract IMPs. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai sefydliadau'n cynnal treialon a gychwynnwyd gan ymchwilwyr, treialon clinigol cydweithredol eraill neu dreialon IMPs a ariennir yn anfasnachol; neu dreialon clinigol neu ymchwiliadau clinigol gan ddefnyddio dyfeisiau meddygol. Mae'r holl sefydliadau sy'n cynnal y treialon clinigol neu'r ymchwiliadau clinigol hyn yng Nghymru wedi'u cynghori i gysylltu â noddwyr treialon ac astudiaethau i ddeall bod eu trefniadau ar gyfer sicrhau parhad cadwyni cyflenwi ar gyfer treialon clinigol IMPs a dyfeisiau meddygol sy'n dod o, neu drwy, yr UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd wedi'u gwarantu os bydd oedi ar y ffin.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i dderbyn y newyddion diweddaraf a chyfrannu at weithgarwch cynllunio.

Mae Llywodraeth y DU a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn paratoi'r Offeryn Statudol ar y Rheoliadau Treialon Clinigol. Mae hyn yn berthnasol ledled y DU.

Gofal Iechyd Cyfatebol

Mae pryderon wedi bod mewn perthynas â'r atebion deddfwriaethol ar gyfer gofal iechyd cyfatebol os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, gan gynnwys Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) Llywodraeth y DU.

Mae'r Bil yn gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer elfennau o ofal iechyd cyfatebol i barhau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac i'r dyfodol. Mae'n debygol y byddai hyn gyda gwledydd penodol yn yr UE y mae Llywodraeth y DU wedi gwneud trefniadau cyfatebol gyda nhw. Fodd bynnag, gallai'r ddeddfwriaeth gael ei defnyddio hefyd i weithredu'r trefniadau gofal iechyd gyda gwledydd eraill. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod hwn yn faes cymhleth a, gan y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud trefniadau cyfatebol ar ran y DU i gyd, mae yna achos dros ddeddfu ar gyfer hyn ar sail y DU i gyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn gweithredu manylion trefniadau gofal iechyd newydd, er y byddai'r rhain yn gosod rhwymedigaethau ar y GIG yng Nghymru; a bod y Bil yn cynnwys darpariaeth gyffredinol yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud a allai ddiwygio, diddymu neu ddirymu Mesur neu Ddeddf y Cynulliad.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi codi pryderon gyda'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Iechyd, yr Arglwydd James O'Shaughnessy, ac wedi nodi'n glir ei bod hi'n annhebygol iawn y byddai'r Bil, fel y'i drafftwyd, yn derbyn cydsyniad gan y Cynulliad. Cyflwynwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 15 Tachwedd a nododd y bydd penderfyniad ar argymell cydsyniad ai peidio'n cael ei lywio gan ganlyniad trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn mynd rhagddynt ac, adeg ysgrifennu hwn, disgwylir y bydd gwelliannau'n cael eu cyflwyno i'r Bil. Bydd y newyddion diweddaraf am ei gynnydd yn cael ei roi i'r Cynulliad maes o law.

Er bod y Bil hwn yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer trefniadau cyfatebol unigol i'w gwneud, mae yna ansicrwydd ychwanegol ynghylch statws dinasyddion yr UE sy'n symud i'r DU a'u hawl i gael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys gofal iechyd. Bydd trefniadau yng Nghymru yn cael eu llywio gan bolisi yn Lloegr, felly mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau mynediad parhaus at radioisotopau meddygol ar ôl Brexit ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu'r camau y mae wedi'u cymryd i gyflawni'r argymhelliad hwn yn ei hymateb i'n hadroddiad.

Ymateb: Derbyn

Mae radioisotopau'n cael eu mewnfurio at ddefnydd diagnostig a therapiwtig gan y GIG, yn bennaf ar gyfer gofal canser. Oherwydd hanner bywyd yr isotopau, nid oes modd storio cyflenwadau sylweddol ohonynt. Fel arfer, mae radioisotopau'n cael eu mewnfurio dros nos o dir mawr Ewrop trwy Dover a'u cludo ar y ffyrdd. Mae hyn yn dibynnu ar drefniadau tollau didrafferth a thrafnidiaeth ddirwystr rhwng tir mawr Ewrop a'r DU.

O ran cytundeb ymadael Llywodraeth y DU yn cael ei gymeradwyo neu'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, ni fydd ymadawiad y DU o Euratom wedyn yn gosod tariffau ar fewnfurio radioisotopau ynddo'i hun. Credir mai'r brif risg i gyflenwad radioisotopau yw unrhyw darfu ar lif nwyddau mewn porthladdoedd os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Mae pryderon rheoleiddiol posibl os bydd y DU yn ymadael heb gytundeb ac yn dewis gadael Euratom.

Mae Llywodraeth y DU yn ffyddiog ei bod wedi nodi holl gyflenwyr perthnasol radioisotopau fel rhan o'i Rhaglen Cyflenwi Meddyginiaethau. Mae'r holl gwmnïau hynny wedi cael eu hannog i ddatblygu trefniadau wrth gefn. O ran radioisotopau, mae hyn yn golygu mewnfurio'r cynhyrchion gan ddefnyddio awyrennau bennaf, sy'n debygol o fod â goblygiadau o ran cost i'r GIG. Mae rhoi blaenoriaeth i gludo radioisotopau ar y ffyrdd wedi'i ddiystyru oherwydd diffyg trefniadau cyfatebol os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â Llywodraeth y DU i weld a fydd gan ymadael â'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd o dan delerau'r cytundeb ymadael neu heb gytundeb oblygiadau o ran rhannu gwybodaeth am y cyflenwad radioisotopau, y prosesau tollau a rheoleiddio ar gyfer cludo radioisotopau ar draws y ffin a thrwyddedu cyflenwyr. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu:

- **yr union amserlenni ar gyfer cwblhau ei gwaith ymchwil ar oblygiadau Brexit i'r sector gofal cymdeithasol;**
 - **manylion ynghylch sut y mae'n bwriadu sicrhau y gall y sector gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i'w chanfyddiadau, a sut y caiff y canfyddiadau hynny eu cyfathrebu i ymarferwyr; a**
 - **manylion ynghylch ei pharatoadau o ran diweddarau cynlluniau ar gyfer recriwtio a chadw staff iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl Brexit.**
-

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ipsos MORI i ymchwilio i gyfansoddiad y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant i ddeall cyfraniad gweithwyr o'r UE nad ydynt yn dod o'r DU a nodi unrhyw wendidau a allai fodoli os bydd prosesau recriwtio a chadw gweithwyr o'r UE yn cael eu heffeithio'n negyddol gan bolisi mewnfudo Llywodraeth y DU pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal mewn dwy ran:

- y brif ran: dadansoddiad meintiol yn canolbwyntio ar asesu nifer y gweithwyr o'r DU, yr UE a gweddill y byd sy'n gweithio yn yr ystod o wahanol leoliadau a swyddi darparu ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant ledled Cymru; ac
- y rhan eilaidd: ymchwil ansoddol yn archwilio effaith gweithwyr o'r UE nad ydynt yn dod o'r DU, gan ystyried unrhyw faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, sgiliau, costau staff a sut mae'r rhain wedi cael eu heffeithio ers y refferendwm i ymadael â'r UE.

Bydd y dadansoddiad meintiol yn cael ei gyflwyno i randdeiliaid ar 6 Chwefror, gyda'r adroddiad llawn i ddilyn ym mis Mawrth. Ar 14 Chwefror, bydd CLILC, Confederasiwn y GIG a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cynnal gweithdy rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar y paratodau ar gyfer Brexit a fydd yn archwilio canfyddiadau ymchwil y gweithlu yn fwy manwl ac yn ystyried y goblygiadau i ddarpariaeth gwasanaethau gofal. Bydd yr ymchwil yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'i rhannu gyda phawb sydd wedi cyfrannu ati hefyd.

Fel y nodwyd yn ein dogfen bolisi "Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl", bydd effaith bosibl Brexit ar wladolion yr UE sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio ar fwy na dim ond meddygon a nyrsys. Mae proffesiynau iechyd eraill, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, bydwagedd, fferyllwyr, parafeddygon, cynorthwywyr gofal iechyd a gweithwyr cymorth megis staff glanhau, yn debygol o gael eu heffeithio hefyd. Yn wir, efallai y bydd effeithiau newidiadau mewnfudo Brexit yn fwy amlwg mewn swyddi sy'n gofyn am weithwyr llai medrus yn sectorau'r GIG a gofal cymdeithasol. Mae'n debygol y bydd Brexit yn arwain at farchnad lafur iechyd a gofal cymdeithasol fwy cyfyng ledled y DU, ac ar draws pob proffesiwn a math o staff, a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni weithio'n galetach fyth i gystadlu am staff, gan hyrwyddo Cymru fel lleoliad dymunol i hyfforddi, i weithio ac i fyw.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain datblygiad ymgyrch recriwtio a chadw a fydd yn cael ei lansio yn y Flwyddyn Newydd. Ochr yn ochr â hyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan amlinellu sut y bydd anghenion y gweithlu'n cael eu diwallu nawr ac yn y dyfodol. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r ymgyrch a strategaeth y gweithlu.

Ar gyfer iechyd, mae Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan yn arwain ar oblygiadau Brexit ar gyfer y gweithlu ac yn sicrhau bod strategaeth y gweithlu yn mynd i'r afael â chanlyniadau Brexit.